

Arweiniad i'ch Treth y Cyngor a Threthi Busnes 2019 - 2020

Nid oes ffordd haws i dalu eich Treth y Cyngor!



Debyd Uniongyrchol: Y ffordd hawdd a chyflym i dalu. Beth am drefnu hwn heddiw trwy godi'r ffôn ar **01597 827463** neu lenwi a dychwelyd y ffurflen a ddaeth gyda'ch bil.



Fy Nghyfrif Powys - Cofrestrwch yn www.powys.gov.uk i weld balans eich cyfrif ac i dalu ar-lein



Cysylltiadau Defnyddiol

Ymholiadau ar Dreth y Cyngor a Threthi Busnes:

Llinell dalu 24 awr awtomatig: 03300 889 578



01597 827463



revenues@powys.gov.uk



Gwasanaethau Refeniw
P.O. Box 71
Llandrindod
Powys, LD1 9AQ



www.powys.gov.uk

Ymholiadau ar Fudd-daliadau Tai a gostyngiadau Treth y Cyngor:



01597 827462



breconawards@powys.gov.uk, montawards@powys.gov.uk nell
radnorawards@powys.gov.uk



Blwch postio 71,
Llandrindod,
Powys, LD1 9AQ



www.powys.gov.uk

Manylion cyswllt Asiantaeth y Swyddfa Brisio:

Treth y Cyngor:



03000 505505



ctwales@voa.gsi.gov.uk



www.voa.gov.uk

Trethi Busnes:



03000 505505



ratingwales@voa.gsi.gov.uk



www.voa.gov.uk

Faint o Dreth y Cyngor fyddai'n ei dalu?

Rhaid talu Treth y Cyngor ar y mwyafrif o anheddau. Un bil sydd ar gyfer pob annedd, boed hwnnw'n dŷ, byngalo, fflat, rhandy, cartref symudol neu dŷ ar gwch, un ai ar rent neu mewn perchnogaeth..

Clustnodwyd pob annedd i un o naw band yn unol â'i werth cyfalaf ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003. Bydd eich bil go iawn yn dibynnu ar y band prasio sy'n berthnasol i'ch eiddo. Gwaith Asiantaeth y Swyddfa Brisio yw bandio aneddiadau (mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar du mewn y dudalen flaen). Mae eich bil Treth y Cyngor yn nodi i ba fand y clustnodwyd eich annedd.

£1,613.44am eiddo Band D fydd cyfartaledd Treth y Cyngor Cyngor Sir Powys am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r tabl isod yn dangos y bandiau pris ynghyd â chyfran treth y cyngor band D sy'n berthnasol i bob band.

Band Prasio	Ystod y Band Prasio o 1 Ebrill 2005			Cyfran o dâl Band D (9fed)
	£		£	
A	0	-	44,000	6
B	44,001	-	65,000	7
C	65,001	-	91,000	8
D	91,001	-	123,000	9
E	123,001	-	162,000	11
F	162,001	-	223,000	13
G	223,001	-	324,000	15
H	324,001	-	424,000	18
I	424,000	+		21

Bydd rhai anheddau wedi'u heithrio rhag talu Treth y Cyngor, ewch i dudalen 8 am ragor o wybodaeth.

Efallai y gallwch hawlio gostyngiad yn eich Treth y Cyngor. Am ragor o wybodaeth ewch i dudalen 9

I le mae'r Dreth y Cyngor yn mynd?

Mae eich Treth y Cyngor yn helpu i dalu am yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan Gyngor Sir Powys, Heddlu Dyfed Powys a'ch Cyngor Tref neu Gymuned leol.

Mae'r tâl ar gyfer eich Cyngor Tref neu Gymuned leol i'w weld ar dudalennau canol y daflen hon. Rydym hefyd yn talu trethi i Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ac i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd yn Nhreth y Cyngor am y flwyddyn. Mae cynnydd o 9.5% yn elfen Cyngor Sir Powys.

Ar gyfer pob eiddo band D	2018-19	2019-20	Cynnydd
	£	£	%
Cyngor Sir Powys	1,189.20	1,302.17	9.5
Heddlu Dyfed Powys	224.56	248.56	10.69
Cynghorau Cymuned/Tref (cyfartaledd)	56.81	62.71	10.39
	1,470.57	1,613.44	


Faint fydd y Cyngor yn ei wario yn ystod 2019-20

Yn 2019-20 mae'r Cyngor yn bwriadu gwario cyllideb net o £ 255.2m.

Daw 29.16% o'r gyllideb net o Dreth y Cyngor, gyda'r gweddill yn grant cymorth refeniw a threthi busnes a ail-ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynyddir y gyllideb net hon trwy godi incwm o ffioedd i ddefnyddwyr gwasanaethau megis prydau bwyd ysgol, cyfleusterau chwaraeon, gwastraff masnach, ac ati, grantiau penodol a dderbyniwyd gan wahanol gyrff megis Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog a throsglwyddo arian o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Sut mae'r arian yn cael ei wario?




Ar beth arall bydd y Cyngor yn gwario'i arian?

Nid yw holl gyllid y Cyngor yn cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r Cyngor hefyd yn buddsoddi Gwariant Cyfalaf yn yr eiddo, cerbydau a'r offer sy'n ei gwneud yn bosibl i gyflwyno'r gwasanaethau hynny.

Mae rhaglen buddsoddi cyfalaf â chyfanswm o £92.3m wedi'i gynllunio ar gyfer 2019-20 fel rhan o raglen fuddsoddi £277.7m dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd hyn yn cael ei gyllido trwy gyfuniad o fenthyg, grantiau, derbyniadau o werthu asedau, ac arian wrth gefn.

Gwariant Cyfalaf 2019 - 20



I weld gwybodaeth fwy manwl ar ffigurau'r gyllideb, ewch i'r wefan sef www.powys.gov.uk.

Credyd Cynhwysol

Y Credyd Cynhwysol sydd yn lle'r budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd megis Budd-dal Tai, Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a Chredydau Treth i bobl o oedran gweithio. Cyflwynwyd y Gwasanaeth Credyd Cynhwysol Llawn i bawb sy'n hawlio o'r newydd ym Mhowys ym mis Hydref 2018 a bydd pawb sy'n hawlio budd-daliadau ar hyn o bryd yn symud i'r system erbyn 2022.

Ni fydd pawb yn derbyn Credyd Cynhwysol. Er enghraifft, os ydych chi o oedran Credyd Pensiwn, neu os ydych o oedran gweithio ac yn byw mewn rhai mathau o lety rhent. Am ragor o fanylion, ewch i'r tudalennau 'Budd-daliadau' ar www.powys.gov.uk/cy/budd-daliadau neu ffoniwch **01597 827462**.

Cap ar Fudd-daliadau

Cyflwynodd Powys y cap ar fudd-daliadau ym mis Tachwedd 2016 fel rhan o newidiadau ar draws y DU. Y cap hwn yw'r cyfanswm y gall aelwyd ei dderbyn mewn budd-daliadau. Os yw hyn yn effeithio arnoch chi neu os ydych angen unrhyw help gyda chyllidebu personol a sut i dorri biliau'r cartref, gall y Tîm Cyngor a Chymorth gydag Arian eich helpu chi. Ewch i'r tudalennau 'Cyngor Ariannol a Hawliau Lles' ar www.powys.gov.uk/cy/budd-daliadau/cyngor-ariannol-a-hawliau-lles/ neu ffoniwch **01597 827666**.

Gofal plant di-dreth

Cyflwynwyd Gofal Plant di-dreth yn ystod 2017 yn lle'r gofal plant â chymorth cyflogwr (talebau gofal plant). Bydd y llywodraeth yn cyfrannu hyd at 20% o'r £10,000 cyntaf o gostau gofal plant cofrestredig fesul plentyn, y flwyddyn. Bydd y cynllun i bobl sydd â llai na £100,000 o incwm blynyddol, a heb fod yn derbyn help gyda gofal plant trwy gredydau treth. Ewch ar-lein i gael rhagor o fanylion: www.gov.uk/government/news/tax-free-childcare-10-things-parents-should-know

Esbonio eich Treth y Cyngor a'ch Trethi Annomestig

Bandiau prisio Treth y Cyngor

Clustnodwyd pob annedd i un o naw band yn unol â'i werth cyfalaf ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003. Gwaith Asiantaeth y Swyddfa Brisio yw bandio anheddau (mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar du mewn y dudalen flaen).

Mae eich bil Treth y Cyngor yn nodi i ba fand y clustnodwyd eich annedd.

Anheddau sydd wedi'u heithrio

Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio, yn cynnwys eiddo:

- sydd heb eu dodrefnu (wedi'u heithrio am hyd at chwe mis)
- sydd yn perthyn i elusen (wedi'u heithrio am hyd at chwe mis)
- sydd angen, neu sy'n cael eu haddasu'n strwythurol neu'n cael eu hatgyweirio (wedi'u heithrio am hyd at chwe mis ar ôl cwblhau). Dim ond am uchafswm o 12 mis y gall yr eithriad hwn fod yn ddilys.
- sy'n cael eu gadael yn wag gan rywun sydd wedi mynd i'r carchar, neu sydd wedi symud i dderbyn gofal personol mewn ysbyty neu gartref neu rywle arall
- sy'n cael eu gadael yn wag gan rywun sydd wedi symud er mwyn rhoi gofal personol i berson arall
- sy'n cael eu gadael yn wag gan fyfyrwyr
- sy'n aros am grant profiant neu lythyron gweinyddu (ac am hyd at chwe mis wedi hynny)
- sydd wedi'u hail-feddiannu
- sy'n wag oherwydd gwaherddir eu meddiannu yn ôl y gyfraith;

Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio pan fydd y canlynol yn unig yn byw yno

- Myfyrwyr neu fyfyrwyr nyrsio
- Pobl sydd o dan 18 oed
- Pobl sydd ag anableded meddyliol difrifol
- Perthynas oedrannus neu anabl sy'n byw mewn adain neu lety tebyg.
- Llety'r lluoedd arfog, megis Barics a llety i rai priod. Mae'r deiliaid yn cyfrannu at gostau gwasanaethau lleol trwy drefniant arbennig.

Gostyngiadau

Os taw dim ond un oedolyn sy'n byw mewn eiddo, bydd yna ostyngiad o 25%. Nid yw'r bobl yn y grwpiau canlynol yn cyfrif tuag at nifer yr oedolion sy'n byw mewn annedd:

- myfyrwyr llawn-amser, nyrsys dan hyfforddiant, prentisiaid a'r rheiny o dan y Cynllun Hyfforddi'r Ifanc.
- cleifion sy'n byw mewn ysbyty
- pobl sy'n derbyn gofal mewn cartref gofal
- pobl ag anfantais feddyliol ddifrifol
- pobl sy'n aros mewn hosteli neu lochesau nos arbennig
- pobl 18 a 19 oed sydd yn yr ysgol neu newydd adael yr ysgol
- gweithwyr gofal sy'n gweithio am gyflog isel, i elusennau fel arfer
- pobl sy'n gofalu am rywun ag anabledd, nad yw'n briod, yn bartner neu'n blentyn o dan 18 oed
- aelodau'r lluoedd ar ymweliad, a rhai sefydliadau rhyngwladol
- aelodau cymunedau crefyddol (mynachod a lleianod)
- pobl yn y carchar (ac eithrio'r rheiny sydd yn y carchar am beidio talu Treth y Cyngor neu ddirwy).

O'r 1af Ebrill 2010, mae modd hawlio disgownt o 50% ar ail gartrefi sy'n berchen i swyddogion y Lluoedd Arfog sy'n byw mewn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 hawliau dewisol newydd i awdurdodau lleol mewn perthynas â disgowntiau Treth y Cyngor (Adran 13A). Mae hyn yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau lleol amrywio disgowntiau ac eithriadau er mwyn ystyried problemau lleol megis llifogydd a thrychinebau naturiol eraill. Gellir defnyddio disgowntiau hefyd mewn achosion unigol. Mae rhagor o fanylion ar ein gwefan www.powys.gov.uk Os ydych chi'n credu bod gennych hawl i ostyngiad neu eithriad, dylech gysylltu â'r Cyngor ar y rhif ffôn sydd ar gefn eich bil.

Os bydd eich bil yn dangos bod gennych hawl i ostyngiad neu eithriad, dylech roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar eich hawl. Os na wnewch hynny, mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dalu dirwy o £50.

Pobl ag anableddau

Os oes angen ystafell, neu ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol arnoch chi, neu rywun sy'n byw gyda chi, neu ragor o le yn eich eiddo i ddiwallu anghenion arbennig sy'n codi o anabledd, gall fod gennych hawl am ostyngiad yn Nhrefn y Cyngor. Gellir gostwng y bil i fil eiddo yn y band yn union o dan y band a welir ar y rhestr brisio. Mae'r gostyngiadau hyn yn sicrhau na fydd pobl anabl yn talu mwy o dreth oherwydd y lle sydd ei angen o ganlyniad i anabledd.

Eiddo gwag ac Ail gartrefi

Bydd rhai eiddo gwag yn cael eu heithrio (gweler uchod):

- Ni fydd unrhyw ddisgownt i eiddo gwag neu heb ddodrefn pan fydd y cyfnod eithrio o 6 mis wedi dod i ben, a hynny o'r 1af Ebrill 2015.
- Ni fydd unrhyw ddisgownt i eiddo gwag sydd wedi'u dodrefnu (ail gartrefi).

Premiymau Treth y Cyngor

O 1 Ebrill 2017 mae'r Cyngor wedi penderfynu codi premiwm o 50% ar Dreth y Cyngor os yw'r eiddo'n:

- Wag a heb fawr o ddodrefn am gyfnod parhaus o flwyddyn, neu'n
- Llawn o dro i dro (ail gartref / cartref gwyliau)

Os bydd rhaid codi premiwm ar yr eiddo, bydd y gost yn gyfanswm o 150%. Bydd eithriadau fel a ganlyn i'r premiwm hwn:

- Os yw'r eiddo ar werth neu i'w rentu (wedi'i gyfyngu i flwyddyn)
- Anecs sy'n rhan o'r prif eiddo
- Byddai rhywun yn byw yno'n barhaol oni bai fod yr unigolyn yn byw yn llety'r lluoedd arfog
- Rhywun yn byw ar faes carafán neu angorfa gwch
- Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw yno trwy gydol y flwyddyn
- Anedd sy'n gysylltiedig â swydd.

Apeliadau

Gallwch apelio i'r Cyngor os ydych yn credu:

- Nad eich cyfrifoldeb chi yw talu Treth y Cyngor, er enghraifft os nad chi yw'r preswlydd neu'r perchennog.
- Y dylai eich eiddo gael ei eithrio.
- Nad yw'r swm ar eich bil yn gywir.

Dylid cyflwyno unrhyw apêl i'r Cyngor yn ysgrifenedig yn y lle cyntaf.

NID YW cyflwyno apêl yn caniatáu i chi beidio talu Treth y Cyngor.

Os bydd eich apêl yn llwyddiannus, byddwch yn cael ad-daliad o dreth a dalwyd heb angen. Os byddwch yn dal yn anfodlon, gallwch gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Prisio. Os ydych am apelio yn erbyn Band yr eiddo, yna dylid cyflwyno'r apêl yn uniongyrchol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio – mae eu manylion cyswllt ar y dudalen fewnol. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn ymwneud â Threth y Cyngor ar ein gwefan, www.powys.gov.uk

Trethi Annomestig - Nodiadau Esbonio

Mae'r wybodaeth isod yn esbonio rhai o'r termau y gellir eu defnyddio ar yr hysbysiad galw am dalu treth annomestig ac yn y wybodaeth ategol. Gellir cael mwy o wybodaeth ynghylch rhwymedigaeth i dalu trethi annomestig gan Awdurdodau Bilio.

Trethi Annomestig

Mae trethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio yn cael eu talu i mewn i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac i'r Heddlu. Bydd eich Cyngor a'ch Awdurdod Heddlu yn defnyddio eu cyfrannau o'r incwm ardrethi a ail-ddosbarthwyd, ynghyd ag incwm oddi wrth y rhai sy'n talu treth y cyngor iddynt, y grant cynnal refeniw a ddarperir gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill, i dalu am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Ailbrisi

Bydd gwerthoedd ardrethol yn cael eu hailasesu ar ailbrisiad cyffredinol er mwyn sicrhau bod y trethi a delir gan un trethdalwr yn adlewyrchu newidiadau dros amser yng ngwerth yr eiddo o'i gymharu ag eraill. Mae hyn yn helpu i sicrhau tegwch yn y system ardrethu trwy ddiweddarau prisiadau yn unol â newidiadau yn y farchnad. Daw'r rhestr ardrethu bresennol i rym ar 1 Ebrill 2017 a bydd wedi'i seilio ar werthoedd ar 1 Ebrill 2015.

Ym mlwyddyn y daw'r ailbrisiad i rym, gosodir sylfaen newydd er mwyn ystyried newidiadau cyffredinol i gyfanswm y gwerth ardrethol ac i sicrhau nad yw'r ailbrisiad yn codi arian ychwanegol

Gwerth Ardrethol

Gosodir gwerth ardrethol eiddo annomestig yn y rhan fwyaf o achosion gan swyddog prisio annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Caiff pob eiddo annomestig ei ail brisio bob 5 mlynedd. O 1 Ebrill 2017 mae gwerth ardrethol eiddo yn cynrychioli ei werth rhentu blynyddol ar y

farchnad agored fel yr oedd ar 1 Ebrill 2015. Yn achos eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, bydd y gwerth ardrethol yn ymwneud â'r rhan annomestig yn unig. Dangosir gwerth pob eiddo y mae ardreth yn daladwy i'ch awdurdod arno yn y rhestr ardrethi leol. Gallwch weld copi ohoni yn y Swyddfa Brisio, a Chyngor Sir Powys, y Gwalia, Llandrindod, Powys, LD1 6AA. Gallwch gael mwy o wybodaeth gan y swyddfa brisio leol neu ar y wefan www.voa.gov.uk

Newid yn y Gwerth Ardrethol

Gall y gwerth ardrethol newid os yw'r swyddog prisio yn credu bod amgylchiadau'r eiddo wedi newid. Caiff y trethdalwr (ac eraill penodol sydd â buddiant yn yr eiddo) mewn amodau penodol gynnig newid yn y gwerth. Os na fydd y trethdalwr a'r swyddog prisio yn cytuno ar y gwerth o fewn 3 mis i wneud y cynnig, bydd y mater yn cael ei gyfeirio fel apêl i Dribiwnlys Prisio. Ewch i wefan Asiantaeth y Swyddfa Brisio www.voa.gov.uk am wybodaeth bellach am yr amgylchiadau y gallwch gynnig newid i'r gwerth ardrethol, sut i gyflwyno cynnig o'r fath a threfniadau apelio.

Y Lluosydd Ardrethi Annomestig Cenedlaethol

Dyma'r gyfradd yn y bunt y lluosir y gwerth ardrethol â hi i roi swm y bil ardrethol blynyddol ar gyfer eiddo. Mae'r lluosydd a bennir bob blwyddyn gan Weinidogion Cymru'r un fath ar gyfer Cymru gyfan a, heblaw mewn blwyddyn ailbrisio, ni all godi o fwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu.

Eiddo gwag

Fel arfer ni fydd rhaid talu Trethi Busnes am y tri mis cyntaf y bydd eiddo'n wag. Caiff hwn ei ymestyn i chwe mis os yw'n eiddo diwydiannol. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd rhaid talu'r trethi llawn. Gall Weinidogion Cymru bennu bod eiddo gwag sydd â gwerth ardrethol penodol yn cael eu heithrio rhag talu trethi. Mae rhai mathau o eiddo gwag wedi'u heithrio o drethi eiddo gwag.

Gostyngiadau elusennol a dewisol

Mae hawl gan elusennau a chlybiau chwaraeon cymunedol amatur i gael gostyngiad o 80% o ardrethi ar unrhyw eiddo annomestig:

- (a) yn achos elusen, os defnyddir yr eiddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol, neu
- (b) yn achos clwb, os yw'r clwb wedi'i gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM.

Mae gan awdurdodau bilio ddisgresiwn i beidio â chodi rhan neu'r cyfan o'r 20 y cant sy'n weddill o'r bil ar eiddo o'r fath a chaiff hefyd roi gostyngiad ar gyfer eiddo a feddiannir gan gyrff penodol nad ydynt wedi'u sefydlu nac yn cael eu rhedeg i wneud elw.

I gael rhagor o wybodaeth am glybiau, dylech gysylltu â'ch Swyddfa Cyllid a Thollau EM leol, (cyfeiriad eu gwefan yw www.hmrc.gov.uk/cymraeg)

Gall unrhyw fusnes wneud cais am ostyngiad yn ôl disgresiwn neu galedi a bydd y Cyngor yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i'w gyflwyno. Bydd y Cyngor yn gwneud hyn dim ond os yw'n fodlon y byddai'n rhesymol i wneud hyn, o ystyried buddiannau talwyr treth y cyngor. Yn achos gostyngiad ar sail caledi, rhaid cael prawf o galedi ariannol yn ogystal ag edrych ar fuddiannau ehangach talwyr treth y cyngor.

Gostyngiadau Ardrethi i Fusnesau Bach

Bydd eiddo busnes sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn derbyn gostyngiad o 100% a bydd y rhai â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn derbyn gostyngiad a fydd yn gostwng bob yn dipyn o 100% i sero.

Mewn achos lle bydd trethdalwr yn gyfrifol am fwy na dau eiddo ar restr trethi annomestig lleol sengl, bydd y trethdalwr yn derbyn y gostgyniad hwn am uchafswm o ddau eiddo.

Yn ogystal â'r uchod, bydd y ddau gategori o eiddo isod yn gymwys ar gyfer y gostyngiad a nodir:

- a. Swyddfeydd post (ac eiddo sy'n cynnwys swyddfeydd post) gyda gwerth ardrethol hyd at £9,000 yn derbyn gostyngiad o 100%, a'r rhai gyda gwerth arderthol o rhwng £9,001 a £12,000 yn derbyn gostynigad o 50%;
- b. Gofal Plant - eiddo sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl ar gyfer gwarchod plant neu ofal dydd gan rywun sydd wedi'i gofrestru dan Ran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (1) Deddf 1989 a gyda gwerth ardrethol hyd at £6,000 gostynigad 100%, a bydd y rhai gyda gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £20,500 yn derbyn gostgyniad a fydd yn gostwng bob yn dipyn o 100% i sero.

I gael manylion pellach ar eithriadau a gostyngiadau, ewch i wefan y Cyngor sef www.powys.gov.uk

Gostyngiad dros dro yn y dreth

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016 yn darparu ar gyfer gostyngiad dros dro i fusnesau bach sydd wedi'u heffeithio'n anffafriol o ailbriso hereditamentau annomestig, a hynny o 1 Ebrill 2017. Cysylltwch â'r awdurdod bilio am fanylion llawn, gan gynnwys pwy sy'n gymwys, yr eithriadau, y trefniadau a'r gostyngiadau priodol yn y trethi.

Cymorth Gwladwriaethol

Gellid ystyried eithriadau rhag talu trethi annomestig fel cymorth gwladwriaethol. Mae'n gyfreithlon os yw'n cael ei gynnig yn unol â Rheoliad y Comisiwn (UE) 1407/2013 ar gymorth de minimis. Yn ôl rheoliad de minimis, mae'n bosibl ymrwymo i dderbyn hyd at €200,000 o gymorth 'de minimis' dros gyfnod treigl o dair blynedd. Os ydych chi'n derbyn, neu wedi derbyn unrhyw gymorth 'de minimis' dros y flwyddyn hon neu'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf (o unrhyw ffynhonnell), dylech roi gwybod i'r awdurdod bilio ar unwaith gyda manylion y cymorth a dderbyniwyd.

Defnydd Cyngor Sir Powys o wybodaeth bersonol, a sut y bydd yn ei rhannu

Mae'n rhaid i Gyngor Sir Powys gymryd rhan yn ymarfer cymharu data'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd data Treth y Cyngor yn cael ei roi i Swyddfa Archwilio Cymru i'w drosglwyddo i'r Fenter Twyll Genedlaethol a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymharu rhwng awdurdodau i atal a chanfod twyll. Gellir cael rhagor o fanylion ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol yn: www.powys.gov.uk

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddaw gennych chi i sicrhau ein bod yn bilio, casglu ac adfer y swm cywir o Dreth y Cyngor neu Drethi Busnes. Er mwyn cyflwyno gwasanaethau'r Cyngor ac i wneud yn fawr o'r cyfle i'w drigolion gael gafael yn y gwasanaethau hyn, mae'n bosibl y bydd yr Adran Incwm a Dyfarniadau'n rhannu eich gwybodaeth o fewn y Cyngor, ond dim ond lle mae'n rhesymol i wneud hynny. Gall hyn gynnwys unrhyw fudd-dal, grant, ostyngiad neu ddyfarniad y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ei weinyddu. Gallwn hefyd defnyddio'r wybodaeth i roi unrhyw gyngor a chymorth ariannol sydd ei angen arnoch.

Gallwn hefyd drosglwyddo'r wybodaeth ymlaen i asiantaethau neu sefydliadau eraill megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid y Wlad, fel sy'n cael ei ganiatáu gan y gyfraith. Mae dyletswydd ar yr awdurdod hwn i warchod yr arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu. I'r perwyl hynny, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a gawsom gennych chi i atal a chanfod twyll.

Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hyn gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus. Gallwn gymharu gwybodaeth rydych wedi'i roi, neu wybodaeth amdanoch chi a ddaeth gan rywun arall â gwybodaeth arall sydd gennym ni. Gallwn hefyd gasglu data neu wybodaeth amdanoch chi gan rai partïon eraill, neu roi gwybodaeth iddyn nhw er mwyn:

- sicrhau fod y wybodaeth yn gywir
- diogelu arian cyhoeddus
- atal neu ganfod twyll ac unrhyw drosedd arall
- rhoi cyngor a chefnogaeth ariannol

Mae'r partïon eraill yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chwmnïau'r sector preifat, gan gynnwys credydwyr, asiantaethau gwirio credyd a sefydliadau eraill megis banciau a sefydliadau ariannol sy'n rhoi benthyg arian

Ni wnawn roi gwybodaeth amdanoch chi i unrhyw un arall, na defnyddio gwybodaeth amdanoch chi at ddibenion eraill, heblaw bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

Mae Adran Incwm a Dyfarniadau Cyngor Sir Powys yn gwneud amrywiaeth eang o waith, ac wrth wneud hynny, bydd yn casglu data personol. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau'r unigolion yn unol â Deddfwriaeth bresennol ar Ddiogelu Data.

Os hoffech wybod mwy am y wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi, neu sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hynny, ysgrifennwch at:

Y Rheolwr Incwm a Dyfarniadau
Cyngor Sir Powys
Blwch Post 71
Llandrindod
Powys
LD1 9AQ.

Cymuned / Community	£	£
Abaty Cwm-hir / Abbeycwmhir	3,481.65	27.46
Aberedw	900.00	6.46
Aberhafesb/ Aberhafesp	5,617.50	25.73
Aber-miwl a Llandysul / Abermule with Llandyssil	41,000.00	55.61
Banwy	5,735.00	17.87
Basle a Chrigion / Bausley with Criggion	8,753.52	24.00
Bugeildy / Beguildy	9,059.00	23.98
Aberriw / Berriew	9,500.00	12.52
Betws / Bettws	6,539.00	29.00
Tref Aberhonddu / Brecon Town	432,800.00	125.27
Bronllys	12,000.00	27.39
Tref Llanfair-ym-Muallt / Builth Wells Town	91,600.00	85.44
Cadfarch	8,700.00	19.30
Caersŵs	35,167.00	49.51
Carno	13,904.00	39.18
Carreghofa	10,915.00	34.32
Castell Caereinion / Castle Caereinion	11,244.00	36.96
Yr Ystog / Churchstoke	22,588.04	26.62
Cilmeri / Cilmerly	3,885.00	16.46
Cleirwy / Clyro	4,668.84	11.08
Crai / Cray	5,100.00	37.18
Tref Crughywel / Crickhowell Town	46,000.00	41.21
Cwmdu a'r Cylch / Cwmdu and District	12,000.00	21.31
Diserth a Threcoed / Disserth & Trecoed	11,500.00	20.94
Duhonw	1,350.00	8.77
Dwyrhiw	5,550.00	19.91
Erwyd / Erwood	5,500.00	21.76
Felinfach	9,000.00	23.41
Ffordun / Forden	28,639.00	35.92
Llanfair Llythynwg / Gladestry	3,000.00	13.29
Glantwymyn	12,500.00	19.22
Y Clas ar Wy / Glasbury	11,000.00	19.51
Glascwm	4,343.00	16.52
Glyn Tarrell	9,500.00	31.41
Cegidfa / Guilsfield	15,202.00	17.52
Gwernymfed	7,500.00	15.43
Tref Y Gelli Gandryll / Hay-on-Wye Town	43,885.00	49.76
Honddu Isaf	1,115.00	4.92
Ceri / Kerry	28,228.00	29.64
Tref Tref-y-clawdd / Knighton Town	70,000.00	52.92
Llanafan Fawr	2,000.00	8.35
Llanbadarn Fawr	5,483.00	16.14
Llanbadarn Fynydd	4,309.20	30.00
Llanbister	6,300.00	32.75
Llanbrynmair	13,200.00	26.46
Llanddew	2,500.00	20.52
Llanddewi Ystradenni / Llanddewi Ystradenny	1,600.00	11.10
Llandinam	43,306.00	98.31
Tref Llandrindod / Llandrindod Wells Town	171,155.00	71.87
Llandrinio	17,034.85	23.65
Llandysilio	16,615.00	30.39
Llanelwedd	2,500.00	13.06
Llanerfyl	4,600.00	21.18
Llanfair Caereinion	40,000.00	50.88
Llanfechain	10,000.00	36.94

Cymuned / Community	£	£
Llanfihangel	13,000.00	46.79
Llanfihangel Rhydithon	3,600.00	29.68
Llanfrynach	13,000.00	39.50
Tref Llanfyllin / Llanfyllin Town	31,000.00	43.64
Llangamarch / Llangammarch	10,800.00	41.34
Llangatwg / Llangattock	19,335.00	34.61
Llangedwyn	3,000.00	15.04
Llangors	14,000.00	24.77
Llangynllo / Llangunllo	3,600.00	17.44
Llangurig	4,100.00	10.74
Llangynidr	14,000.00	23.52
Llangynyw / Llangyniew	8,800.00	28.33
Llangynog	10,000.00	50.90
Tref Llanidloes / Llanidloes Town	160,680.00	135.48
Llanidloes Allanol / Llanidloes Without	10,000.00	31.80
Llanigon	5,000.00	17.66
Llanrhaeadr-ym-Mochnant	11,000.00	18.55
Llansantffraid	19,500.00	27.12
Llansilin	3,500.00	9.62
Llanwddyn	7,800.00	63.82
Llanwrthwl	3,000.00	28.34
Tref Llanwrtyd / Llanwrtyd Wells Town	18,500.00	46.02
Llanllŷr / Llanyre	12,918.62	22.00
Llywel	9,299.00	36.51
Tref Machynlleth / Machynlleth Town	172,000.00	196.08
Maes-car / Maescar	15,000.00	31.60
Manafon	8,178.76	45.76
Meifod	14,165.60	20.00
Merthyr Cynog	4,750.00	33.49
Mochdre â Phenstrowed / Mochdre with Penstrowed	6,900.00	27.63
Tref Trefaldwyn / Montgomery Town	36,936.45	50.98
Nantmel	11,001.00	31.40
Maesyfed / New Radnor	6,725.53	28.76
Y Drenewydd a Llanllwchaearn / Newtown & Llanllwchaearn	746,697.00	172.31
Penraig / Old Radnor	7,680.00	19.00
Castell-paen / Painscastle	1,700.00	5.86
Pen-y-bont a Llandeglaun / Penybont & Llandegley	4,460.00	21.81
Pen-y-bont-fawr / Penybont Fawr	12,000.00	47.45
Tref Llanandras a Norton / Presteigne and Norton Town	69,634.33	54.14
Tref Rhaeadr Gwy / Rhayader Town	43,000.00	46.98
St Harmon	10,670.00	33.98
Tref Talgarth / Talgarth Town	54,000.00	72.83
Tal-y-bont ar Wysg / Talybont-on-Usk	15,070.00	37.79
Tawe Uchaf	30,000.00	52.61
Trallong	1,800.00	8.78
Trefeglwys	6,500.00	14.03
Trefflys	3,500.00	15.36
Tregynon	15,000.00	38.00
Trewern	19,822.00	30.36
Dyffryn Grwyne / Vale of Grwyne	7,000.00	14.21
Tref Y Trallwng / Welshpool Town	475,000.00	178.51
Llanddewi-yn-Hwytyrn / Whitton	2,947.38	14.00
Yscir	3,656.00	14.00
Ystradfellte	10,000.00	38.79
Tref Ystradgynlais / Ystradgynlais Town	261,000.00	89.61